



Newyddlen – Awst 2020

Croeso i newyddlen Morlais sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi am y prosiect.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais gyda'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Os yr hoffech wybod mwy am Morlais cysylltwch â ni ar info@morlaisenergy.com.

Y Broses Caniatáu

Mae'r Arolygiaeth Cynllunio bellach wedi trosglwyddo holl waith papur Morlais i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer rhan olaf y broses caniatáu dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith. Mae disgwyl penderfyniad yn yr Hydref eleni. Y gobaith wedyn yw bydd gwaith cychwynnol yn gallu dechrau ar y tir cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r broses o ganiatáu'r drwydded forol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru - mae'r ddwy broses yn rhedeg ochr yn ochr. Does dim disgwyl i waith yn y môr ddechrau tan 2022.

Yn y cyfamser mae'r broses o benodi contractwyr ar gyfer gwaith adeiladu ar y tir a gwaith drilio ar gyfer ceblau wedi cychwyn. Y gobaith yw cyhoeddi manylion y contractwyr yn fuan iawn.

Cefnogaeth i Morlais gan y Fargen Twf

Mae cynllun busnes amlinellol Morlais wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn derbyn cyllid trwy'r Fargen Twf. Morlais yw'r cynllun cyntaf i gyrraedd y garreg filltir hon.

Mae'r penderfyniad yn golygu bod Morlais, yn gallu symud i'r cam nesaf a datblygu cynllun busnes llawn. Os bydd y cynllun llawn yn cael ei dderbyn yna bydd y Bwrdd yn buddsoddi hyd at £9 miliwn o arian Bargaen Twf yn yr isadeiledd fydd yn cysylltu Morlais â'r rhwydwaith trydan.

Mae Morlais yn un o bum prosiect o fewn Rhaglen Carbon Isel y Fargen Twf, wedi eu dewis er mwyn sicrhau budd economaidd y sector i'r rhanbarth. Mae'r rhaglen am sicrhau bod gogledd Cymru yn flaenllaw o ran ynni carbon isel ac yn cyfrannu at y nod o gyrraedd targedau net sero carbon erbyn 2050.

Gweinidog Llywodraeth DU yn ymweld â phrosiect Morlais

Mewn ymweliad i ddysgu am brosiectau Bargaen Twf Gogledd Cymru yn ddiweddar cafodd Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, David TC Davies AS gyfle i gyfarfod â'r tîm yn Morlais. Cafodd gyfle i ddysgu mwy am Morlais a'r dechnoleg fydd yn ael ei ddefnyddio fel rhan o'r cynllun.

Wrth siarad am ei ymweliad, dywedodd Mr Davies: "Mae 2021 yn mynd i fod yn flwyddyn arwyddocaol wrth i ni geisio adeiladu'n ôl yn well ac yn gryfach o bandemig Covid-19. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gynnal ein momentwm ar draws y Rhaglen Bargen Dinas a Thwf gyfan, er mwyn creu swyddi newydd ac adfywio economïau lleol."



Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, David TC Davies AS

Llwyfan i ddatblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi

Mae fforwm sgiliau a hyfforddiant ac un arall ar gyfer y gadwyn gyflenwi wedi ei lansio i hyrwyddo'r cyfleoedd ddaw yn sgil Morlais.

Ers sefydlu Morlais mae Menter Môn wedi rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau a chyfleodd busnes yn lleol. Y gobaith gyda chreu'r grwpiau newydd hyn yw sicrhau bod cynllunio yn digwydd o'r cychwyn i wneud yn fawr o'r cyfleoedd ac atgyfnerthu'r ymrwymiad i sicrhau bod budd Morlais yn aros yng ngogledd Cymru.

Gydag arbenigwyr o'r sector addysg a datblygu economi yn dod ynghyd, y bwriad yw diffinio a thynnu sylw at y cyfleoedd swyddi yn ogystal ag edrych ar y math o sgiliau fydd eu hangen ar gyfer Morlais. Bydd hefyd yn fforwm i aelodau drafod y bylchau posib o ran sgiliau a chyflenwi yn yr ardal ac i weithio gydag ysgolion, darparwyr addysg a busnesau lleol i sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu meithrin a'r gwasanaethau angenrheidiol ar gael yn lleol.

Cyswllt gyda gweithlu'r dyfodol

Unwaith eto cafodd Morlais gyfle i gymryd rhan mewn sesiwn rhithiol gyda Gyrfa Cymru. Yn y digwyddiad roedd Swyddog Prosiect Morlais, Gwenan Owen yn sgwrsio gyda rheini a myfyrwyr am y cyfleoedd am swyddi ddaw o Morlais a'r sgiliau fydd eu hangen yn lleol.

Mae Gwenan hefyd wedi cymryd rhan mewn sesiwn ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd ar y cyd â STEM Gogledd fel rhan o Glwb Sbarci, parc gwyddoniaeth M-SParc. Mae'r Clwb yn hyrwyddo pynciau STEM i blant a phobl ifanc ysgolion lleol ac yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael yn y sector carbon isel.



Briffio gwleidyddion

Wedi i'r gwrth bleidiau benodi gweinidogion cysgodol yn ddiweddar bu John Idris Jones, un o gyfarwyddwr Morlais yn cyfarfod â'r llefarwyr ar newid hinsawdd. Cafodd gyfarfod gyda Janet Finch Saunders AS ar ran y Ceidwadwyr a Delyth Jewell AS ar ran Plaid Cymru. Roedd y ddau gyfarfod yn gadarnhaol, gyda'r gwleidyddion yn cefnogi ymrwymiad Morlais i leihau carbon wrth gynhyrchu trydan glân.



Diweddariad Selkie

Fel rhan o'i raglen cymorth busnes, lansiodd Prosiect Selkie gyfres o ddigwyddiadau 'Cwrdd â'r Arbenigwr' yn ddiweddar er mwyn trosglwyddo gwybodaeth a chefnogaeth i fusnesau ynni morol a chwmnïau cadwyn gyflenwi leol.

Gyda sesiynau bob pythefnos, mae ystod o bynciau eisoes wedi cael sylw gan gynnwys tendro, yswiriant, iechyd a diogelwch, ac achredu. Mae dros 150 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer y saith sesiwn gyntaf ers mis Mai, ac mae wedi bod yn ffordd i fusnesau ddysgu oddi wrth ei gilydd yn ogystal â rhwydweithio a datblygu cysylltiadau.

Bydd y digwyddiadau'n parhau dros y misoedd nesaf, gyda sesiynau wedi'u trefnu ar feysydd yn cynnwys profi a dilysu, gweithgynhyrchu, a denu buddsoddiad. I ddarganfod mwy ac archebu'ch lle mewn sesiwn, ewch i wefan Selkie yma.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Prosiect Selkie ei Arddangosfa Rhwydwaith Busnes cyntaf fel rhan o Gyfarfod Blynnyddol 2021. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gwmnïau yn Rhwydwaith Selkie ddangos eu gwasanaethau a'u prosiectau yn ogystal â chysylltu â busnesau eraill sy'n ymwneud â'r diwydiant ynni morol ledled Cymru ac Iwerddon. Bydd y prosiect yn parhau i gynnal cyfleoedd rhwydweithio a chymorth busnes i gwmnïau sy'n cymryd rhan trwy gydol y prosiect, os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy ewch i www.selkie-project.eu/the-selkie-network/.

**Am wybodaeth bellach am Morlais cysylltwch info@morlaisenergy.com
neu ewch i'n gwefan www.morlaisenergy.com.**

Pwy ydym ni? Mae Menter Môn yn fenter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar sicrhau budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol.

Beth rydym yn ei wneud? Sicrhau caniatâd i roi'r isadeiledd angenrheidiol yn ei le er mwyn galluogi datblygu technoleg ynni llif llanw i gynhyrchu trydan

Ble rydym yn gwneud hyn? Mae ardal y prosiect oddi ar arfordir gorllewin Ynys Cybi mewn parth sydd wedi ei ddynodi gan Ystâd y Goron ar gyfer datblygu technoleg ynni morol.

Pam rydym yn gwneud hyn? Rydym am sicrhau bod y cynllun yn dod a budd lleol trwy gyfleoedd economaidd a thaclo newid hinsawdd